OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 666

# Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022

**Rheoliadau Addysg (Dawn mewn Pynciau Penodol) 1999**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Dawn mewn Pynciau Penodol) 1999(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae'r diwygiadau hyn yn cymryd effaith mewn cysylltiad â disgyblion sydd—

(a) o 1 Medi 2022—

(i) mewn blwyddyn derbyn mewn ysgol a gynhelir;

(ii) ym mlynyddoedd 1 i 6 mewn ysgol a gynhelir;

(iii) ym mlwyddyn 7 mewn ysgol a gynhelir pan fo'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol o dan Ran 2 o Ddeddf 2021;

(b) o 1 Medi 2023—

(i) ym mlwyddyn 7;

(ii) ym mlwyddyn 8;

(c) o 1 Medi 2024 ym mlwyddyn 9 mewn ysgol a gynhelir;

(d) o 1 Medi 2025 ym mlwyddyn 10 mewn ysgol a gynhelir;

(e) o 1 Medi 2026 ym mlynyddoedd 11 i 13 mewn ysgol a gynhelir.

(3) Yn lle rheoliad 2 rhodder—

"**2.** The following subjects are prescribed for the purposes of section 102A of the School Standards and Framework Act 1998(**2**) (permitted selection in maintained schools in Wales: aptitude for particular areas of learning and experience etc.)—

(a) international languages, or any such language,

(b) expressive arts, or any one or more of the expressive arts,

(c) sport, or one or more sports,

(d) design and technology, and

(e) computing and digital technology."

(**1**) O.S. 1999/258.
(**2**) 1998 p. 31.